12 o drefi a dinasoedd i elwa o raglen i helpu



Bydd ein partneriaeth £5 miliwn gyda'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol yn cefnogi sefydliadau lleol o Gernyw i Gaernarfon ac o Derry/Londonderry i Swydd Aberdeen.

Mae grymuso mentrau cymdeithasol ac elusennau i ddod â chwa o awyr iach i adeiladau treftadaeth segur sydd mewn perygl wrth wraidd rhaglen yr Ymddiriedolaeth Datblygu Treftadaeth. Gan weithio gyda'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol (AHF), bu i ni wahodd sefydliadau i ymuno â'r rhaglen yn gynharach eleni.

Rhoi hwb i allu sefydliadau treftadaeth adeiledig

Bydd y 12 sefydliad yn cael eu hariannu i gynyddu graddfa eu gweithrediadau atgyweirio, adfer ac ailddefnyddio adeiladau sydd mewn perygl yn eu hardaloedd lleol. Bydd arweiniad gan ymgynghorwyr a mentoriaid yn cynorthwyo datblygiad eu sgiliau a gwybodaeth, ochr yn ochr â chymorth gan gymheiriaid i ehangu eu rhwydweithiau.

> Mae'r bartneriaeth hon gyda'r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol (AHF) yn cefnogi cymunedau, elusennau a grwpiau treftadaeth i ddatblygu cynlluniau trawsnewid adeiladau hanesyddol sydd mewn perygl - gan roi hwb i falchder yn eu lle, cysylltiad â'r gorffennol a buddsoddi yn y dyfodol.
> *Eilish McGuinness, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol*

Lledaeniad yr arian ar draws y DU

Ymhlith y sefydliadau sy'n derbyn cymorth drwy'r rhaglen mae **Cyngor Medway yn Chatham, Swydd Gaint**, sydd â chynlluniau i drawsnewid cyn gorffdy ysbyty rhestredig Gradd II yn ofod cymunedol newydd, ac **Inner City Trust yn Derry/Londonderry** sy'n bwriadu adfer cyn gartref un o siopau adrannol hynaf y byd.

Y rhestr lawn o sefydliadau llwyddiannus yw:

- **Cyngor Medway** yn Chatham, Swydd Gaint
- **Inner City Trust** yn Derry, Londonderry
- **Glasgow Building Preservation Trust** yn Glasgow
- **Culture Trust Luton** yn Luton, Swydd Bedford
- **Treftadaeth Hwlffordd Cyf** yn Hwlffordd, Sir Benfro
- **Heeley Trust** yn Heeley, De Swydd Efrog
- **Fife Historic Buildings Trust** yn Kinghorn, Fife
- **Galeri Caernarfon** yng Ngwynedd, Caernarfon



Llwyddiannau profedig trwy raglen beilot

Mae rhaglen yr Ymddiriedolaeth Datblygu Treftadaeth yn ehangu ei gwaith ar draws y DU yn dilyn rhaglen beilot lwyddiannus, a ddangosodd sut mae cymunedau lleol yn elwa o adfywio adeiladau treftadaeth.

Y llynedd, adferodd y sefydliad nid-er-elw Valley Heritage yn Bacup, Swydd Gaerhirfryn, adeilad banc Fictoraidd gwag yn ofod cydweithio newydd a thai ar gyfer pobl ifanc ddigartref.

Yn Sunderland, trawsnewidiodd Tyne & Wear Building Preservation Trust res o dai masnachwyr Sioraidd oedd unwaith dan fygythiad o gael eu dymchwel yn lleoliad cerddorol bywiog, siop goffi a bar.

Diogelu treftadaeth bensaernïol a chreu cartrefi, gweithleoedd a mannau cymunedol

Meddai Eilish McGuinness, Prif Weithredwr Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: “Fel ariannwr treftadaeth mwyaf y Deyrnas Unedig, rydym yn cydweithio â sefydliadau sy'n rhannu ein gweledigaeth i werthfawrogi a gofalu am dreftadaeth a'i chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol.

“Mae’r bartneriaeth hon gyda’r Gronfa Treftadaeth Bensaernïol (AHF) yn cefnogi cymunedau, elusennau a grwpiau treftadaeth i drawsnewid adeiladau hanesyddol sydd mewn perygl - gan roi hwb i falchder yn eu lle, cysylltiad â’r gorffennol a buddsoddi yn y dyfodol.”

Meddai Matthew Mckeague, Prif Weithredwr y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol: “Bydd dod â hen adeiladau yn ôl i ddefnydd cynhyrchiol yn diogelu gorffennol pensaernïol cyfoethog ein gwlad ar yr un pryd â chreu cartrefi, gweithleoedd a lleoliadau cymunedol newydd pwysig."

Mynnwch ysbrydoliaeth ar gyfer eich prosiect treftadaeth

Porwch drwy grynodebau ac astudiaethau achos o brosiectau treftadaeth adeiledig yr ydym wedi'u cefnogi ar ein tudalen we ardaloedd, adeiladau a henebion.



efyd mewn ...

Bourn Mill. Image: Matthew Power Photography.



ge sites for 25 years

The museum offers insight into the experiences of prisoners from Victorian times to the modern day. Photo: West Midlands Police Museum.



ands Police Museum

Saltdean Lido. Credit: Xavier Buendia.

Restoration begins at iconic 1930s Saltdean Lido